Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 01/2026

Dyddiad cyhoeddi: 14/01/2026

# Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt: Adroddiad 2024 ar gyfer Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-832-0

Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt: Adroddiad 2024 ar gyfer Cymru

Awduron: Rebecca Cox, Ymchwil twristiaeth (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Cox, R., Hughes, S. 2026. Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt: Adroddiad 2024 ar gyfer Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 01/2026

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/mynegai-brandiau-cenhedloedd-anholt-ipsos-adroddiad-2024-ar-gyfer-cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil Twristiaeth

Economi, Ynni a Chynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r tablau ..... 2

Rhestr o ffigurau ..... 3

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 4

2. Methodoleg ..... 5

Gwledydd panel craidd ..... 5

Dewis a phwysoli ..... 6

Rheoli Ansawdd Gwaith Maes ..... 6

Cynnal a Chadw'r Panel yn Gyffredinol a Rheoli Ansawdd y Panel ..... 7

Cenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd ..... 7

Data a chyfrifiadau'r Mynegai ..... 8

Ystyriaethau data ..... 12

3. Canfyddiadau ..... 14

Safle Cyffredinol ..... 14

Ffafrioldeb ..... 17

Cyfarwyddineb ..... 20

Perfformiad dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd ..... 22

4. Casgliadau ..... 27

# Rhestr o'r tablau


Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, 20 o wledydd panel craidd yn ôl rhanbarth...6
Tabl 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, 50 o genhedloedd a sgoriwyd .......................8
Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, amlinelliad o'r dimensiynau ........................10
Tabl 4: trosi o raddfa Likert 7 pwynt i sgôr allan o 100 ........................................................12
Tabl 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, safleoedd a sgoriau cyffredinol Cymru dros amser ...........................................................................................................15
Tabl 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb dros amser ........................................................................................................18
Tabl 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, sgôr a safle Cymru o ran cyfarwyddineb dros amser ...............................................................................21
Tabl 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, sgoriau dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad.........................................................................................................................26
Tabl 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, safleoedd dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad.........................................................................................................................27

# Rhestr o ffigurau


Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, safle cyffredinol Cymru yn ôl yr 20 o wledydd panel craidd ..... 16

Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, sgôr cyffredinol Cymru yn ôl gwlad banel graidd ..... 17

Ffigur 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd ..... 19

Ffigur 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd ..... 20

Ffigur 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, cyfarwyddineb â Chymru yn ôl gwlad banel ..... 21

Ffigur 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, sgoriau dimensiynau a chyffredinol y Mynegai ar gyfer Cymru ..... 22

Ffigur 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, sgôr a safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai ..... 23

Ffigur 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, safleoedd cyffredinol Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol ..... 24

Ffigur 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, safleoedd Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol ..... 25

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Mae Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt (a elwir yn 'Mynegai’ o hyn ymlaen) yn arolwg panel byd-eang ar-lein blynyddol sy'n archwilio delwedd 50 o genhedloedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau tanysgrifiad Llywodraeth Cymru i Fynegai 2024 er mwyn mesur enw da Cymru yn rhyngwladol ac yn ddomestig.

Dechreuodd y Mynegai yn flynyddol yn 2005 a'i nod yw mesur delweddau gwledydd y byd, ac olrhain eu proffiliau wrth iddynt godi neu gwympo. Gall y ffordd y caiff gwlad ei hystyried yn rhyngwladol effeithio ar ei chysylltiadau â gwledydd eraill, a'i hymdrechion ym meysydd busnes, masnach a thwristiaeth. Gan gydnabod hyn, mae'r Mynegai yn ganolog i ddeall Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru (LlC 2020) sy'n disgrifio Cymru fel 'gwlad fach ag uchelgeisiau mawr'. Mae'r Strategaeth yn nodi tri nod craidd a'i gweledigaeth ryngwladol i helpu i osod Cymru mewn sefyllfa ar gyfer heriau'r dyfodol; sef: codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol; tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad; a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r Mynegai yn adnodd pwerus ar gyfer gwella strategaeth ryngwladol Cymru drwy roi cipolwg ar sut mae Cymru'n cael ei gweld yn fyd-eang a chefnogaeth i ganfod cyfleoedd i gryfhau Cymru fel brand rhyngwladol.

Yn 2024, cynhaliwyd y Mynegai mewn 19 o wledydd incwm uchel a chanolig sy'n chwarae rhan bwysig ac amrywiol mewn cysylltiadau rhyngwladol, masnach a llif gweithgareddau busnes, diwylliannol a thwristiaeth. Nod yr arolwg yw darparu cynrychiolaeth ranbarthol eang, yn ogystal â chydbwysedd rhwng gwledydd incwm uchel ac incwm canolig.
Mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu barn a safbwyntiau'r boblogaeth ar-lein yn yr 19 o wledydd panel craidd hyn. Ei nod yw asesu’r ddelwedd a’r enw da cyffredinol sydd gan wlad ar draws chwe dimensiwn o gymhwysedd cenedlaethol. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion'; 'Llywodraethu', 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Mewn cyd-destun byd-eang sy'n newid, gan gynnwys ansicrwydd a godir gan effeithiau digwyddiadau byd-eang, mae angen deall yn well sut mae gwledydd eraill yn gweld Cymru. Mae chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol y Mynegai yn cael eu pwysoli’n gyfartal. Yn unigol, gall y safleoedd a'r sgoriau ar gyfer Cymru gyfleu negeseuon gwahanol am enw da Cymru. O'u darllen gyda'i gilydd, mae'r safleoedd a'r sgoriau yn rhoi syniad cyffredinol o’r enw da sydd gan wlad:

- mae'r **safle** yn rhoi gwybodaeth am enw da gwlad o'i chymharu â gwledydd eraill, a gall newid dros amser mewn perthynas â pherfformiad gwledydd eraill
- gellir ystyried y **sgôr** fel dangosydd o enw da gwlad, y gellir ei ddefnyddio i olrhain enw da gwlad dros amser

Mae data'r Mynegai yn rhoi cipolwg ar agweddau pobl tuag at Gymru a beth yw eu canfyddiadau ohoni. Gall data agweddol fel hyn gryfhau dealltwriaeth o sut mae Cymru'n cael ei gweld yn rhyngwladol, gan helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o enw da Cymru, yn fyd-eang ac yn fewnol.

Nid gwerthusiad o Lywodraeth Cymru nac o unrhyw asiantaeth gyflawni/cangen o weithgarwch y llywodraeth yw'r Mynegai, na dangosydd o berfformiad y llywodraeth chwaith. Arolwg byr am Gymru yn ei ystyr ehangaf yw'r Mynegai. Mae rhagor o fanylion am ystyriaethau data a chyfyngiadau'r ymchwil ar gael yn yr adran Methodoleg.

# 2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dull methodolegol a'r gweithdrefnau rheoli ansawdd a fabwysiadwyd gan Anholt & Co ar gyfer arolwg Mynegai 2024. Er mwyn sicrhau dilyniant â thonnau blaenorol y Mynegai, roedd Anholt & Co wedi comisiynu Ipsos Observer i gynnal y gwaith maes unwaith yn 2024.

## Gwledydd panel craidd

Yn 2024, roedd tua 42,000 o ymatebwyr o 19 o wledydd panel craidd wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Dewiswyd y 19 o wledydd panel craidd i ddarparu cydbwysedd rhanbarthol a chymysgedd o wledydd incwm uchel ac incwm canolig, o ystyried y rhan fyd-eang gynyddol a chwaraeir gan wledydd sy'n datblygu. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 1 Awst a 10 Medi 2024 ar gyfer pob un o'r 19 o wledydd panel craidd. Mae'r 19 o wledydd panel craidd yn 2024 wedi'u rhestru isod ac roeddent yr un rhai ag ym mlynyddoedd blaenorol y Mynegai. Oherwydd sancsiynau rhyngwladol, nid oedd yn bosibl cynnal cyfweliadau o fewn Ffederasiwn Rwsia, ac felly mae data o 3,004 o gyfweliadau â phanel Rwsia yn 2023 wedi cael ei ddefnyddio ym Mynegai 2024.

**Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, 20 o wledydd panel craidd yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarth | Gwledydd |
|---|---|
| Gorllewin Ewrop / Gogledd America | Canada, Unol Daleithiau America, Y Deyrnas Unedig, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Sweden |
| Canol / Dwyrain Ewrop | Gwlad Pwyl, Rwsia, Twrci |
| Asia a'r Môr Tawel | Japan, Tsieina, India, De Korea, Awstralia |
| America Ladin | Yr Ariannin, Brasil, Mecsico |
| Y Dwyrain Canol / Affrica | Saudia Arabia, De Affrica |

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2024

## Dewis a phwysoli

Ar sail y paramedrau diweddaraf ar gyfer poblogaeth ar-lein ym mhob gwlad, cafodd ffrâm y sampl ym mhob gwlad ei phwysoli i adlewyrchu priodoleddau demograffig allweddol poblogaeth ar-lein 2024 y wlad honno, fel oedran, rhywedd ac addysg. Hefyd, yn yr Unol Daleithiau (UDA), y Deyrnas Unedig (DU), De Affrica, India a Brasil, defnyddiwyd hil a/neu ethnigrwydd ar gyfer cydbwyso samplau. Cafodd pwysoliadau ar gyfer pob gwlad eu cyfrifo gan adran samplo ac ystadegau fewnol Ipsos. Er mwyn sicrhau bod pob gwlad yn cael ei thrin yn gyfartal yn y cyfartaledd byd-eang, roedd pwysoliad 'un wlad, un bleidlais' wedi cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo cyfartaledd cyfunol y wlad, gan fod meintiau'r samplau a gafwyd yn amrywio ychydig ar draws gwledydd yr arolwg.

Cafodd paneli ar-lein mawr, wedi'u recriwtio ymlaen llaw ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd eu defnyddio ar gyfer arolwg Mynegai 2024. Dilynwyd gweithdrefnau rheoli ansawdd, megis dilysu manylion adnabod ymatebwyr yn aml. Gan ddefnyddio ystadegau ynghylch poblogaeth ar-lein pob gwlad banel graidd, haenwyd ffrâm y sampl ym mhob gwlad â chwe chell sampl, sef dynion 18-34 oed, 35-54 oed a 55 oed a hŷn, a menywod 18-34 oed, 35-54 oed a 55 oed a hŷn. Ar gyfer pob cell, lluniwyd hap-samplau yn gyfrannol ac anfonwyd gwahoddiadau e-bost yn gwahodd panelwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.

## Rheoli Ansawdd Gwaith Maes

Caiff yr arolygon ar-lein eu hunanweinyddu, felly mae’r risg y gallai ymatebwyr wneud camgymeriadau neu ffugio gwybodaeth yn uwch yn achos yr arolygon hynny nag yn achos arolygon dros y ffôn neu wyneb yn wyneb a gaiff eu gweinyddu gan gyfwelwyr sydd wedi’u hyfforddi. Er mwyn helpu i leihau’r risg honno, cynhaliodd Ipsos brosesau dilysu a glanhau data yn rhan o’i broses ar gyfer rheoli ansawdd yr arolwg. Cafodd “gwibwyr” (ymatebwyr sy’n cwblhau’r arolwg mewn amser afresymol o gyflym) eu tynnu o’r sampl, yn ogystal ag ymatebwyr sy’n ymgymryd â “llinellau syth” (clicio drwy arolwg gan roi’r un ateb i bob eitem).

Cafodd yr holiaduron gan ymatebwyr a oedd yn euog o wneud hynny eu tynnu allan o’r ffeil ddata a chafodd panelwyr eraill eu hychwanegu yn eu lle. At hynny, cafodd mesurau diogelwch eu rhoi ar waith ar lefel y panel, gan gynnwys dilysu cyfeiriadau IP, canfod botiau, a sicrhau nad yw’r un ymatebwyr yn ymateb fwy nag unwaith.

## Cynnal a Chadw'r Panel yn Gyffredinol a Rheoli Ansawdd y Panel

Caiff arolwg y Mynegai ei gynnal ar-lein. Ar gyfer Mynegai 2024, fel ym mhob blwyddyn arall, cynhaliwyd prosesau dilysu a glanhau llym at ddibenion rheoli ansawdd paneli ar-lein. Roedd y prosesau hyn yn cynnwys sicrhau bod panelwyr diffygiol a negeseuon e-bost nad oedd modd eu danfon yn cael eu tynnu allan o'r sampl. Roedd systemau monitro parhaus y paneli hefyd yn canfod ymddygiad twyllodrus posibl yn seiliedig ar weithgareddau a phatrymau cwblhau  arolygon, gyda phanelwyr euog yn cael eu tynnu allan.

Roedd gweithredwyr y paneli fel arfer yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymell yn dibynnu ar y wlad banel. Roedd hyn yn cynnwys: rhoddion i elusennau ar ran panelwyr, swîps, pwyntiau, cardiau rhodd, gwobrau, lawrlwythiadau cerddoriaeth a thaliadau arian parod.

## Cenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd

Roedd MBC 2024 yn mesur delwedd 50 o genhedloedd. Yn 2024, gostyngodd nifer y gwledydd a restrwyd o 60 i 50. Roedd y gwledydd a gafodd eu tynnu ar gyfer 2024 yn cynnwys Botswana, Colombia, Gweriniaeth Dominica, Ecwador, Hwngari, Gwlad yr Iorddonen, Morocco, Panama, Ynysoedd y Philippines, Qatar, Tanzania a Fietnam. Ychwanegwyd Estonia a Phalesteina yn 2024. Cafodd y 50 o genhedloedd hyn eu cynnwys ar sail eu pwysigrwydd gwleidyddol ac economaidd, ac i adlewyrchu cydbwysedd rhanbarthol. I raddau llai, ystyriwyd amrywiaeth systemau gwleidyddol ac economaidd hefyd. Cafodd buddiannau sefydliadau sy'n tanysgrifio eu hadlewyrchu hefyd wrth ddewis gwledydd y Mynegai.

**Tabl 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, 50 o genhedloedd a sgoriwyd**

| Rhanbarth | Gwledydd |
|---|---|
| Gogledd America | Canada, Unol Daleithiau America |
| Gorllewin Ewrop | Awstria, Gwlad Belg, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Groeg, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Norwy, Portiwgal, Yr Alban, Sbaen, Sweden, Y Swistir, Y Deyrnas Unedig, Cymru |
| Canol a Dwyrain Ewrop Ewrop | Y Weriniaeth Tsiec, Gwlad Pwyl, Rwmania, Rwsia Estonia, Slofacia, Twrci, Wcráin |
| Asia a'r Môr Tawel | Awstralia, Tsieina, India, Indonesia, Japan, Seland Newydd, Singapore, De Korea, Taiwan |
| America Ladin | Yr Ariannin, Brasil, Chile, Mecsico, Periw |
| Y Dwyrain Canol / Affrica | Yr Aifft, Israel, Kenya, Saudia Arabia, De Affrica, Palesteina, Yr Emiradau Arabaidd Unedig |

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2024

Ym mhob gwlad banel, cafodd y rhestr o 50 o genhedloedd ei neilltuo ar hap i ymatebwyr. Rhoddodd yr ymatebwyr hyn sgôr i 10 gwlad yr un. Roedd hyn yn sicrhau bod 25 o wledydd blaenoriaethol (a oedd yn cynnwys tanysgrifwyr presennol yr MBC) yn cael tua 500 o sgoriau fesul gwlad banel a bod y 25 gwlad arall yn cael tua 300 o sgoriau fesul gwlad banel.

## Data a chyfrifiadau'r Mynegai

Caiff data ei gyflwyno mewn dau fformat yn yr adroddiad hwn:

- Safle: Cafodd 50 o genhedloedd eu cynnwys ym Mynegai 2024. Pan nodir safle ar gyfer Cymru, mae hyn yn cyfeirio at safle'r genedl rhwng 1 a 50, lle mai 1 yw'r safle uchaf, sef y 1af ymysg pob un o'r 50 cenedl a fesurwyd.
- Sgôr: Caiff sgôr y Mynegai ei gyflwyno fel cyfartaledd allan o 100 o'r chwe sgôr dimensiwn.

## Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn gyffredinol

Mae safle a sgôr cyffredinol yn y Mynegai yn mesur delwedd ac enw da cyffredinol 50 o genhedloedd y Mynegai. Caiff safle a sgôr gyffredinol yn y Mynegai ei gyfrifo fel cyfartaledd o'r chwe dimensiwn a asesir yn yr arolwg a amlinellir isod: 'Allforion'; 'Llywodraethu', 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

## Cyfarwyddineb a ffafrioldeb

Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr sgorio pa mor dda yr oeddent yn teimlo eu bod yn adnabod 50 o genhedloedd y Mynegai. Mesurwyd cyfarwyddineb ar raddfa Likert 5 pwynt, gydag 1.0 yn sgôr cyfarwyddineb leiaf neu'r sgôr cyfarwyddineb isaf (“heb erioed

glywed amdani”) a 5.0 yn sgôr cyfarwyddineb mwyaf neu uchaf (“yn dda iawn”). Caiff cyfarwyddineb ei gyflwyno fel canran yr ymatebwyr a oedd ag o leiaf rywfaint o wybodaeth am Gymru.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd sgorio eu ffafrioldeb tuag at 50 o genhedloedd y Mynegai. Mesurwyd ffafrioldeb ar raddfa Likert 7 pwynt, gydag 1.0 yn golygu eithriadol o anffafriol neu'r sgôr ffafrioldeb isaf, a 7.0 yn golygu eithriadol o ffafriol neu'r sgôr ffafrioldeb uchaf. Caiff lefelau ffafrioldeb tuag at Gymru eu cyflwyno fel y sgôr gymedrig allan o 7.0.

## Dimensiynau a phriodoleddau

Mae'r Mynegai yn cynnwys chwe dimensiwn, sydd i gyd wedi'u pwysoli'n gyfartal ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo sgoriau a safleoedd cyffredinol yn y Mynegai. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion'; 'Llywodraethu'; 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Caiff pob dimensiwn unigol ei gyfrifo gan ddefnyddio'r cyfartaledd o set o briodoleddau. Er enghraifft, mae ffigurau 'Allforion' yn gyfartaledd o'r ymatebion i'r tri chwestiwn sy'n ymwneud ag 'allforion'. Ar lefel y dimensiynau, mae pob dimensiwn yn gyfartaledd o sgoriau'r cwestiynau/datganiad priodoleddau wedi'u trosi'n raddfa o 1 i 100. Ceir disgrifiad o bob un o'r chwe dimensiwn a'u priodoleddau sylfaenol neu feysydd cwestiwn yn nhabl 3.

Defnyddiwyd rhwng tri a phump o briodoleddau i gyfrifo'r sgoriau ar gyfer pob dimensiwn (gweler tabl 3). Atebodd ymatebwyr y datganiadau ar gyfer pob priodoledd a fesurwyd ar raddfa Likert o 1.0 i 7.0, gydag 1.0 yr isaf a'r gwaethaf a 7.0 yr uchaf a'r gorau (gyda 4.0 yn safle niwtral yn y canol). Er mwyn hwyluso darllenadwyedd ar draws y canfyddiadau o'r datganiadau priodoleddau unigol a'r sgôr gyffredinol wedi'i mynegeio ar gyfer pob dimensiwn, mae'r cyfartaleddau cymedrig o'r raddfa Likert 7 pwynt ar gyfer pob un o'r priodoleddau wedi cael eu trosi'n sgôr allan o 1 i 100, gan adlewyrchu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Ipsos i drosi sgoriau priodoleddau yn sgôr gyffredinol ar gyfer dimensiwn. Caiff y sgoriau trosi eu hamlinellu yn nhabl 4.

**Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, amlinelliad o'r dimensiynau**

| Dimensiwn | Y priodoleddau a fesurwyd |
|---|---|
| Allforion | 1) Barn yr ymatebwyr am gyfraniad cenedl at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg<br><br>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo'n well/yn waeth am brynu cynhyrchion/gwasanaethau o wybod eu bod yn dod o bob gwlad<br><br>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn lle creadigol sydd â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl |
| Llywodraethu | 1) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest<br><br>2) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg<br><br>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol mewn heddwch a diogelwch rhyngwladol<br><br>4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn diogelu'r amgylchedd<br><br>5) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd |
| Diwylliant | 1) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn rhagori ym maes chwaraeon<br><br>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog<br><br>3) A yw'r ymatebwyr yn ystyried pob cenedl yn lle diddorol/cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes fel cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth |

| | |
|---|---|
| Pobl | 1) A oedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai pobl o bob cenedl yn rhoi croeso cynnes iddynt<br><br>2) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi cael person o bob cenedl yn ffrind agos iddynt<br><br>3) Parodrwydd yr ymatebwyr i gyflogi pobl â chymwysterau da o bob gwlad |
| Twristiaeth | 1) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi ymweld â chenedl pe na bai arian yn broblem<br><br>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol<br><br>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn gyfoethog o ran adeiladau hanesyddol a henebion<br><br>4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod gan bob cenedl fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol |
| Mewnfudo a Buddsoddi | 1) Parodrwydd yr ymatebwyr i fyw a gweithio am gyfnod sylweddol ym mhob gwlad<br><br>2) A yw'r ymatebwyr yn ystyried pob cenedl yn lle sydd ag ansawdd bywyd uchel<br><br>3) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol<br><br>4) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl fusnesau yr hoffent fuddsoddi ynddynt<br><br>5) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas |

**Tabl 4: trosi o raddfa Likert 7 pwynt i sgôr allan o 100**

| Graddfa Likert 7 pwynt | Sgôr wedi'i throsi, 1 i 100 |
|---|---|
| 1 | 1 |
| 2 | 17.5 |
| 3 | 34 |
| 4 | 50.5 |
| 5 | 67 |
| 6 | 83.5 |
| 7 | 100 |

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol o 2024 mewn perthynas â'r canlynol:

- y Mynegai yn gyffredinol
- cyfarwyddineb a ffafrioldeb
- dimensiynau

Mae canlyniadau manylach sy'n ymwneud â'r priodoleddau i'w gweld yn y tablau cysylltiedig ond ni fyddant yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad ysgrifenedig hwn.

## Ystyriaethau data

### Newidiadau i'r arolwg dros amser

Rhwng 2021 a 2023, ehangodd y Mynegai o 50 gwlad i 60 gwlad. Ochr yn ochr â'r ehangu hwn ar y gwledydd a oedd yn cymryd rhan, gwelwyd cynnydd yn nifer yr oedolion a holwyd. Yn 2020, holwyd tua 20,000 o oedolion, o'i gymharu â 60,000 yn 2023. Yn 2024, dychwelodd y Mynegai i 50 o genhedloedd, gydag oddeutu 42,000 o oedolion yn cael eu holi. Wrth gymharu safleoedd dros amser, dylid cadw mewn cof fod y Mynegai wedi ehangu ac yna leihau dros y cyfnod hwn, oherwydd gellid priodoli newidiadau mewn safle yn rhannol o leiaf i'r ehangu hwn.

Mae hefyd yn bwysig nodi mai data 2023 yw'r holl ddata gan banel Rwsia ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd eleni yn 2024, gan fod sancsiynau rhyngwladol wedi atal y gallu i gynnal arolygon o fewn Ffederasiwn Rwsia.

Pwynt ychwanegol i'w nodi yw bod pecynnau tanysgrifio Cymru wedi newid dros amser, gan arwain at lefelau amrywiol o ddadansoddi a data ar gael. Yn 2020 a 2023, prynodd Llywodraeth Cymru danysgrifiad llawn i'r Mynegai. Yn 2024, prynodd Cymru adroddiad ôl-

weithredol sy'n golygu bod data'n cael ei gasglu'n ddiweddarach, o'i gymharu â'r rhai a brynodd danysgrifiad llawn. Mae'r broses sicrhau ansawdd hefyd yn wahanol rhwng y tanysgrifiadau. Mae'r data a gafwyd gan Anholt & Co ar gyfer y tanysgrifiad ôl-weithredol yn llai manwl na data tanysgrifiad llawn. Felly, mae'r gwaith o brosesu, sicrhau ansawdd a dadansoddi'r data eisoes wedi'i gwblhau gan y contractwyr ac nid gan Lywodraeth Cymru, fel y mae gyda'r tanysgrifiad llawn.

**Ystyriaethau ehangach**

Mae ystyriaethau ehangach hefyd yn dylanwadu ar y gwaith o ddadansoddi ac adrodd ar ganfyddiadau 2024:

- Yn 2020 y daeth Cymru'n wlad a gymerodd ran yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd am y tro cyntaf. Gan gadw hynny mewn cof, dylid ystyried yr ymchwil hon yn un archwiliadol. Mae newid enw da yn cymryd amser hir.
- Mae'r Mynegai yn rhoi cipolwg ar ba mor gyfarwydd yw ymatebwyr â chenedl a'u canfyddiadau ohoni yn erbyn ystod eang o fesurau. Mae'r dadansoddiad yn darparu set o ganfyddiadau y gellir eu cyffredinoli ar lefelau ymwybyddiaeth a safbwyntiau byd-eang i ddarparu asesiad o enw da brand cenedl. Fodd bynnag, nid yw'r Mynegai yn archwilio pam mae ymatebwyr yn teimlo fel y maent, na pham mae newidiadau mewn enw da yn digwydd dros nifer o flynyddoedd.
- Mae'r data'n dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cael mwy o gysylltiad â Chymru yn tueddu i fod â delwedd fwy cadarnhaol o'r genedl; ond nid yw'n bosibl canfod yn y Mynegai pryd y digwyddodd hyn.
- Nid yw sgôr uchel ar gyfer gwlad o reidrwydd yn arwydd o safle uchel ar gyfer y wlad honno, ac i'r gwrthwyneb. Mae'r safle'n rhoi gwybodaeth am yr enw da sydd gan wlad o'i gymharu â gwledydd eraill ac felly mae'n ymateb i newidiadau yn y sampl o wledydd a werthusir tra nad yw'r sgôr absoliwt yn gwneud hynny. Dylid edrych ar y sgoriau a'r safleoedd gyda'i gilydd, oherwydd yn unigol efallai y byddant yn cyfleu negeseuon gwahanol am ganfyddiadau o Gymru.
- Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata cryno wedi'i gyfuno o'r ymatebion ac efallai y bydd anghysondebau â'r data crai oherwydd, er enghraifft, talgrynnu neu gyfuno. Mae'r sgoriau wedi cael eu talgrynnu i un lle degol.

- Mae'r Mynegai yn asesu enw da gwlad ar draws y chwe dimensiwn 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'. Fodd bynnag, mae'r dimensiynau a fesurir yn gysyniadau cymhleth ac, mewn rhai achosion, gallant fod â ffiniau sy'n gorgyffwrdd a/neu ystyron gwahanol i ymatebwyr.
- Caiff canfyddiadau dimensiynau eu cyflwyno fel sgôr allan o 1 i 100, wedi'i chyfrifo fel cyfartaledd o'r sgoriau a roddwyd ar gyfer y cwestiynau sylfaenol.
- Wrth ddadansoddi newidiadau yn y gyfres amser, mae newidiadau llai o ran sgôr a safle yn aml yn gallu bod yn ddibwys yn ystadegol. Mae'n bwysig nodi na phrofwyd arwyddocâd unrhyw gynnydd neu ostyngiad a grybwyllir yn yr adroddiad hwn.

# 3. Canfyddiadau

## Safle Cyffredinol

Yn 2024, roedd Cymru yn yr 23ain safle yn gyffredinol allan o 50 o wledydd, sy’n ei rhoi yn hanner uchaf y Mynegai. Sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai oedd 62.0 allan o 100. Mae sgôr gyffredinol Cymru ychydig yn uwch na phwynt canol y sgoriau uchaf ac isaf.

Isod, gwelir safleoedd cyffredinol Cymru yn y Mynegai rhwng 2020 a 2024. Mae'r safleoedd wedi aros yn weddol sefydlog, gyda gostyngiad bach o'r 21ain safle yn 2020 i'r 22ain safle yn 2021 a 2022, a'r 23ain safle rhwng 2023 a 2024. Mae sgoriau Cymru hefyd wedi aros yn gymharol sefydlog dros amser.

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng safleoedd a sgoriau. Nid yw newidiadau mewn safle o reidrwydd yn adlewyrchu newidiadau mewn sgoriau, ac i'r gwrthwyneb, a gall safleoedd a sgoriau gyfleu negeseuon gwahanol am enw da Cymru. Felly, mae'n bwysig ystyried sgoriau a safleoedd gyda'i gilydd, er mwyn deall y canfyddiadau cyffredinol.

Dylid nodi hefyd mai 50 o genhedloedd oedd wedi cymryd rhan yn y Mynegai yn 2020. O 2021 ymlaen, mae 60 o genhedloedd wedi cymryd rhan bob blwyddyn ac yn 2024 dychwelwyd i 50 o genhedloedd. Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, mae newid enw da yn cymryd amser hir. Dylid ystyried newidiadau mewn safle yn y cyd-destun hwn.

**Tabl 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, safleoedd a sgoriau cyffredinol Cymru dros amser**

| Mesur | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Safle | 21 | 22 | 22 | 23 | 23 |
| Sgôr | 59.8 | 62.5 | 61.9 | 62.4 | 62.0 |


Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2024

## Enw da Cymru yn y Gwledydd Panel Craidd

Mae Ffigur 1 yn dangos safleoedd cyffredinol yn y Mynegai a roddwyd i Gymru gan bob un o'r gwledydd panel craidd. Ar gyfartaledd, Gorllewin Ewrop a Gogledd America oedd y rhanbarthau lle'r oedd enw da Cymru gryfaf.

Cafwyd y safleoedd uchaf ar gyfer Cymru gan y DU (14$^{eg}$), Ffrainc (16$^{eg}$), Awstralia (17$^{eg}$) a'r Unol Daleithiau (18$^{fed}$). Roedd rhai gwahaniaethau eithaf amlwg mewn safleoedd rhwng 2023 a 2024. Gwelwyd y cynnydd mwyaf gan India a oedd wedi rhoi safle 44 i Gymru yn 2023 a 33 yn 2024, Ffrainc (22 yn 2023 ac 16 yn 2024). Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn safleoedd rhwng 2023 a 2024 gan Tsieina (29 yn 2023 i 33 yn 2024). Dylid dehongli'r gwahaniaethau hyn yn ofalus oherwydd gallant yn rhannol fod wedi digwydd oherwydd bod y newidiadau yn nifer y gwledydd dan sylw wedi gostwng o 60 i 50 o wledydd rhwng 2023 a 2024.


**Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, safle cyffredinol Cymru yn ôl yr 20 o wledydd panel craidd**




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 a 2024

Mae Ffigur 2 yn dangos sgoriau cyffredinol y Mynegai a roddwyd i Gymru gan bob un o'r gwledydd panel craidd. Mae'r sgoriau wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2023 a 2024. Yn 2024, y gwledydd panel craidd â'r sgoriau uchaf ar gyfer Cymru oedd India (69.4), De Affrica (66.4) a'r Deyrnas Unedig (66.4). Gellir gweld gwahaniaeth nodedig rhwng 2023 a 2024 mewn sgoriau gan Saudia Arabia. Yn 2023, cafodd Cymru un o'r sgoriau uchaf gan Saudia Arabia (69.6) ond yn 2024 gostyngodd hyn i 63.1. Gellir gweld gostyngiadau mewn sgoriau ar gyfer Cymru hefyd gan Tsieina (66.3 yn 2023 i 66.3 yn 2024) a De Affrica (71.2 yn 2023 i 66.4 yn 2024). Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn sgoriau Cymru rhwng 2023 a 2024 gan yr Eidal (58.5 yn 2023 i 61.7 yn 2024), India (66.5 yn 2023 i 69.4 yn 2024) a Ffrainc (59.7 yn 2023 i 62.4 yn 2024).

**Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, sgôr cyffredinol Cymru yn ôl gwlad banel graidd**




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 a 2024

## Ffafrioldeb

Roedd arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024 hefyd wedi gofyn i ymatebwyr sgorio eu ffafrioldeb tuag at Gymru gan ddefnyddio graddfa o 1.0 i 7.0, gydag 1.0 yn golygu eithriadol o anffafriol a 7.0 yn golygu eithriadol o ffafriol. Caiff ffafrioldeb cyffredinol ei gyflwyno fel y sgôr gymedrig ar y raddfa ffafrioldeb.

Y sgôr gymedrig ar gyfer ffafrioldeb tuag at Gymru yn 2024 oedd 4.7, sydd ychydig yn uwch na phwynt canol y raddfa sef 4.0 (a oedd yn cynrychioli'r opsiwn niwtral 'ddim yn ffafriol nac yn anffafriol'). Ar y cyfan, mae Cymru'n cael ei gweld mewn modd niwtral-i-gadarnhaol ar draws pob un o'r 20 gwlad banel graidd, ac nid oes yr un ohonynt yn rhoi sgôr ffafrioldeb o 4.0 neu is i Gymru. Roedd Cymru yn yr hanner uchaf o safleoedd, gyda safle ffafrioldeb o 24 o blith 50 o genhedloedd y Mynegai.

Mae'r tabl isod yn dangos ffafrioldeb tuag at Gymru rhwng 2020 a 2024. Mae sgôr gymedrig Cymru o ran ffafrioldeb wedi aros yn weddol sefydlog, ar ôl cynyddu ychydig o 4.7 yn 2020 i

4.8 yn 2023, dychwelodd i 4.7 yn 2024. Fodd bynnag, mae safle Cymru o ran ffafrioldeb dri lle yn is yn 2024, o'i gymharu â 2020 (21ain yn 2020; 23ain yn 2023 a 24ain yn 2024).


**Tabl 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb dros amser**

| Mesur | 2020 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Sgôr gymedrig ar gyfer ffafrioldeb | 4.7 | 4.8 | 4.7 |
| Safle | 21 | 23 | 24 |

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2024

Mae Ffigur 3 yn dangos y lefelau ffafrioldeb a sgoriwyd tuag at Gymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd. Gan y DU (5.4) ac Awstralia (5.0) y cafwyd y sgôr gymedrig uchaf ar gyfer ffafrioldeb. Daeth sgoriau cymedrig isaf Cymru ar gyfer ffafrioldeb gan Japan (4.2), Rwsia (4.3), De Korea (4.4) a Thwrci (4.4). Fodd bynnag, roedd y sgoriau ffafrioldeb hyn yn dal yn uwch na phwynt canol 'niwtral' y raddfa. Er bod y sgoriau ar draws gwledydd panel wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2023 a 2024, gwelwyd rhai gostyngiadau bach ar gyfer ffafrioldeb gan Dde Affrica (o 5.0 yn 2023 i 4.5 yn 2024), Saudi Arabia (o 5.0 yn 2023 i 4.5 yn 2024), Tsieina (o 5.0 yn 2023 i 4.5 yn 2024), a Thwrci (o 4.8 yn 2023 i 4.4 yn 2024). Gwelwyd y cynnydd uchaf, er ei fod yn fach, gan India (o 4.6 yn 2023 i 4.8 yn 2024).

**Ffigur 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd**





Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 a 2024

Mae Ffigur 4 yn dangos lefelau'r safleoedd ffafrioldeb tuag at Gymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd. Cafwyd y safle uchaf gan y DU (5$^{ed}$) ac Awstralia (15$^{fed}$). Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd isaf gan Rwsia (41$^{ain}$), India (38$^{ain}$) a Saudi Arabia (38$^{ain}$). Er bod Cymru wedi cael safle isel o ran ffafrioldeb gan Saudi Arabia, cafodd sgôr ffafrioldeb uwch na'r cyfartaledd gan y wlad honno, sy'n dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng sgoriau a safleoedd.

Gwelwyd rhai newidiadau sylweddol mewn safleoedd ffafrioldeb rhwng 2023 a 2024, ond gallai hyn fod wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod y newidiadau yn nifer y gwledydd dan sylw wedi gostwng o 60 i 50 o wledydd. Mae'r cynnydd mwyaf mewn safle i'w weld gan Dde Affrica (o'r 38$^{ain}$ yn 2023 i'r 29$^{ain}$ yn 2024) a Rwsia (o'r 50$^{fed}$ yn 2023 i'r 41$^{fed}$ yn 2024). Gwelwyd y gostyngiad mwyaf gan Ganada (o 17$^{ain}$ yn 2023 i 22$^{ain}$ yn 2024).

**Ffigur 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd**




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 a 2024

## Cyfarwyddineb

Yn arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, gofynnwyd i ymatebwyr sgorio pa mor dda roeddent yn teimlo eu bod yn adnabod pob gwlad, gan ddefnyddio graddfa o 1.0 i 5.0. Caiff cyfarwyddineb cyffredinol ei gyflwyno fel canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn adnabod Cymru 'yn dda iawn', 'yn weddol dda', neu 'ychydig'. Dywedodd 56% o'r ymatebwyr eu bod yn weddol gyfarwydd â Chymru o leiaf, gan olygu eu bod yn 44ain o blith 50 o wledydd y Mynegai.

Mae Tabl 7 isod yn dangos cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru rhwng 2020 a 2024. Roedd canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod o leiaf yn weddol gyfarwydd â Chymru yn 2024 bedwar pwynt canran yn is nag yn 2023 (60% yn 2024; 56% yn 2024). Fodd bynnag, roedd safle cyfarwyddineb cyffredinol Cymru bedwar lle yn uwch yn 2024, o'i gymharu â 2023 (48ain yn 2023; 44ain yn 2024).


**Tabl 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, sgôr a safle Cymru o ran cyfarwyddineb dros amser**

| Mesur | 2020 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| % yn gyfarwydd â Chymru | 53% | 60% | 56% |
| Safle | 45 | 48 | 44 |

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2024

Mae Ffigur 5 yn dangos y lefelau cyfarwyddineb â Chymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd. Yn 2024, roedd cyfarwyddineb â Chymru ar ei uchaf yn y DU (94%), ac yna Sweden (73%) a Gwlad Pwyl (73%). Japan (29%) a De Korea (31%) oedd â'r lefelau isaf o gyfarwyddineb â Chymru.

**Ffigur 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2024, cyfarwyddineb â Chymru yn ôl gwlad banel**




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 a 2024

Mae'r gwledydd sydd â'r cyfarwyddineb uchaf ac isaf â Chymru wedi aros yn weddol debyg ers 2023. Yn 2023, roedd y Deyrnas Unedig (92%), Sweden (76%), Awstralia (74% a Gwlad Pwyl (73%) i gyd ymysg y pum gwlad â'r lefel uchaf o gyfarwyddineb cyffredinol â Chymru. Fodd bynnag, un gwahaniaeth nodedig yw bod Saudia Arabia yn 2023 ymysg un o'r gwledydd uchaf a oedd yn gyfarwydd â Chymru (73% yn gyfarwydd â Chymru). Yn 2024, 52% o'r ymatebwyr ddywedodd eu bod yn gyfarwydd â Chymru, gwahaniaeth o 21 pwynt

canran. Gwelwyd gostyngiadau hefyd ar gyfer De Affrica (65% yn 2023; 51% yn 2024) a De Korea (42% yn 2023; 31% yn 2024).


## Perfformiad dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd

Mae'r Mynegai yn cynnwys chwe dimensiwn, sydd i gyd wedi'u pwysoli'n gyfartal ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo sgoriau a safleoedd cyffredinol yn y Mynegai. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion'; 'Llywodraethu'; 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Mae sgoriau Cymru ar draws pob un o'r chwe dimensiwn yn 2024 i'w gweld yn ffigur 6. Mae safleoedd Cymru ar draws pob un o'r chwe dimensiwn yn 2024 i'w gweld yn ffigur 8.

Mae Ffigur 6 yn dangos bod Cymru wedi cael sgoriau gweddol gyson ar draws pob dimensiwn. Ei sgôr uchaf ar gyfer y dimensiwn 'Twristiaeth' (67.4) ac yna 'Pobl' (65.0). Roedd sgôr isaf Cymru ar gyfer dimensiwn 'Allforion' (56.5).

**Ffigur 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, sgoriau dimensiynau a chyffredinol y Mynegai ar gyfer Cymru**





Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2024

Mae Ffigur 7 yn dangos sgoriau Cymru ar gyfer y dimensiynau rhwng 2020 a 2024. 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Llywodraethu' yw'r dimensiynau sy'n cael y sgoriau uchaf ar gyfer Cymru,

gan gael y sgoriau uchaf yn 2020, 2023 a 2024. Yn yr un modd, cafodd Cymru ei sgôr isaf ar gyfer y dimensiwn 'Allforion' ym mhob un o'r blynyddoedd hyn.

Gan edrych ar sgoriau dros amser, mae'n ymddangos bod y sgoriau ar eu huchaf braidd ar gyfer 2023, gyda'r sgoriau'n cynyddu ar draws pob dimensiwn o'i gymharu â 2020. Yn 2024, roedd y sgoriau ar draws pob dimensiwn naill ai wedi gostwng ychydig neu wedi aros yr un fath, o'i gymharu â 2023. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn sgoriau rhwng 2023 a 2024 ar gyfer 'Allforion', 'Diwylliant' a 'Pobl'. Fodd bynnag, roedd y sgoriau ar draws pob dimensiwn yn uwch yn 2024, o'i gymharu â 2020.

**Ffigur 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, sgôr a safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai**





Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2024

Cafodd Cymru hefyd ei gosod mewn safleoedd cyson ar draws y dimensiynau, yn amrywio o'r 19eg safle i'r 27ain safle allan o 50 o genhedloedd. Yn 2024, roedd Cymru yn rhan o hanner uchaf gwledydd y Mynegai ar draws pob dimensiwn, ar wahân i 'Allforion' (26ain) a 'Diwylliant' (27ain).

Mae Ffigur 8 yn dangos mai safle uchaf Cymru oedd 'Llywodraethu', yn 19eg o 50 o wledydd, ac yna 'Mewnfudo a Buddsoddi' (21ain) a 'Pobl' (23ain). Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle isaf ar gyfer y dimensiwn 'Diwylliant' ar 27ain.

**Ffigur 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, safleoedd cyffredinol Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol**





Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2024

Isod, caiff safleoedd Cymru eu cymharu ar gyfer y dimensiynau rhwng 2020 a 2024. Cafodd Cymru ei rhoi yn ei safleoedd uchaf ar gyfer yr un dimensiynau yn 2020, 2023 a 2024. Y safleoedd uchaf yn ystod y blynyddoedd hyn oedd ar gyfer 'Llywodraethu', 'Mewnfudo a Buddsoddi', a 'Pobl'. Yn yr un modd, 'Diwylliant' oedd y dimensiwn â'r safle isaf i Gymru yn 2020, 2023 a 2024.

Mae tueddiadau yn y data yn awgrymu bod safleoedd ar draws y rhan fwyaf o ddimensiynau naill ai wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu rhwng 2020 a 2023, ar wahân i 'Diwylliant' a oedd wedi gwella.

Wrth edrych ar draws yr holl flynyddoedd, gellir gweld y gwelliannau mwyaf yn sgoriau safleoedd dimensiwn ar gyfer 'Diwylliant' o 29ain yn 2020 i 27ain yn 2024. Gwelwyd ychydig o welliannau hefyd yn safleoedd y dimensiynau yn 'Twristiaeth' (25ain yn 2020, 26ain yn 2023, a 24ain yn 2024) a 'Mewnfudo a Buddsoddi' (20fed yn 2020, 22ain yn 2023, a 21ain yn 2024). Fel y soniwyd yn flaenorol, mae hyn yn wahanol i sgoriau lle gwelwn fod sgoriau ar draws pob dimensiwn naill ai wedi gostwng ychydig yn 2024 neu wedi aros yr un fath. Mae hyn eto'n tynnu sylw at bwysigrwydd edrych ar sgoriau a safleoedd gyda'i gilydd.

**Ffigur 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2024, safleoedd Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol**




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2024

## Dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn ôl gwlad

Cynhaliwyd dadansoddiad pellach i asesu sgoriau a safleoedd ar gyfer pob dimensiwn fesul gwlad banel graidd. Caiff y sgoriau eu cyflwyno yn nhabl 8 ac mae'r safleoedd yn nhabl 9.

Er bod y sgoriau'n gymharol gymysg ar gyfer pob dimensiwn, mae rhai canfyddiadau cyson ar draws y gwledydd. India a'r Deyrnas Unedig roddodd rai o'i sgoriau uchaf i Gymru ar draws y rhan fwyaf o'r dimensiynau o'r holl wledydd panel, a Japan, Rwsia a De Korea roddodd rai o'i sgoriau isaf i Gymru.

**Tabl 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, sgoriau dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad**

| | Allforion | Llywodraethu | Diwylliant | Pobl | Twristiaeth | Mewnfudo/Buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **56.5** | **61.8** | **60.9** | **65.0** | **67.4** | **60.5** |
| Yr Ariannin | 54.0 | 58.4 | 58.6 | 65.0 | 69.2 | 60.9 |
| Awstralia | 55.8 | 63.9 | 62.7 | 69.9 | 69.5 | 60.9 |
| Brasil | 60.9 | 63.5 | 62.1 | 65.6 | 70.2 | 65.3 |
| Canada | 56.5 | 62.8 | 62.5 | 69.0 | 69.4 | 60.2 |
| Tsieina | 57.9 | 61.1 | 59.8 | 61.0 | 61.7 | 60.6 |
| Ffrainc | 56.8 | 61.4 | 62.2 | 67.6 | 68.2 | 58.2 |
| Yr Almaen | 55.9 | 63.6 | 59.7 | 66.4 | 69.0 | 56.3 |
| India | 63.1 | 69.9 | 68.5 | 71.6 | 72.4 | 70.8 |
| Yr Eidal | 56.2 | 61.3 | 58.2 | 65.0 | 69.5 | 59.9 |
| Japan | 50.8 | 52.8 | 53.5 | 53.6 | 54.1 | 48.3 |
| Mecsico | 58.1 | 63.0 | 63.4 | 69.0 | 72.1 | 66.5 |
| Gwlad Pwyl | 55.2 | 60.7 | 57.5 | 63.5 | 68.1 | 59.2 |
| Rwsia | 50.9 | 51.4 | 57.8 | 56.2 | 61.9 | 51.4 |
| Saudi Arabia | 59.9 | 62.8 | 63.0 | 63.8 | 66.1 | 62.9 |
| De Affrica | 57.6 | 66.7 | 66.0 | 68.5 | 71.2 | 68.7 |
| De Korea | 51.9 | 59.2 | 57.2 | 57.0 | 59.3 | 55.6 |
| Sweden | 54.7 | 61.8 | 59.1 | 66.9 | 67.6 | 58.8 |
| Twrci / Türkiye | 53.7 | 58.5 | 58.3 | 60.4 | 66.0 | 59.8 |
| Y Deyrnas Unedig | 60.7 | 66.3 | 64.9 | 69.9 | 73.2 | 63.4 |
| Unol Daleithiau America | 57.4 | 63.4 | 62.3 | 67.2 | 68.3 | 60.5 |

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2024

Yn yr un modd, mae'r safleoedd yn gymharol gymysg ar gyfer pob dimensiwn. Gydag 'Allforion' er enghraifft, mae'r safleoedd yn amrywio o 17 i 42. Fodd bynnag, mae rhai canfyddiadau cyson ar draws y gwledydd. Rhoddodd Awstralia, Ffrainc a'r Deyrnas Unedig rai o'i safleoedd uchaf ar draws y dimensiynau i Gymru, tra bo India, Rwsia a Saudi Arabia wedi rhoi rhai o'r cyfraddau isaf i Gymru.

**Tabl 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2024, safleoedd dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad**

| | Allforion | Llywodraethu | Diwylliant | Pobl | Twristiaeth | Mewnfudo/Buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **26** | **19** | **27** | **23** | **24** | **21** |
| Yr Ariannin | 34 | 22 | 33 | 29 | 31 | 27 |
| Awstralia | 23 | 12 | 18 | 11 | 17 | 14 |
| Brasil | 26 | 19 | 30 | 27 | 27 | 21 |
| Canada | 24 | 17 | 23 | 18 | 22 | 21 |
| Tsieina | 35 | 30 | 38 | 32 | 34 | 25 |
| Ffrainc | 21 | 13 | 11 | 4 | 15 | 18 |
| Yr Almaen | 25 | 15 | 22 | 18 | 22 | 21 |
| India | 42 | 32 | 39 | 31 | 35 | 31 |
| Yr Eidal | 27 | 20 | 21 | 18 | 18 | 22 |
| Japan | 22 | 23 | 21 | 24 | 28 | 20 |
| Mecsico | 35 | 25 | 33 | 30 | 31 | 27 |
| Gwlad Pwyl | 30 | 21 | 26 | 25 | 28 | 24 |
| Rwsia | 40 | 38 | 36 | 41 | 43 | 34 |
| Saudi Arabia | 36 | 35 | 38 | 37 | 40 | 34 |
| De Affrica | 35 | 16 | 27 | 29 | 31 | 24 |
| De Korea | 26 | 23 | 29 | 25 | 31 | 23 |
| Sweden | 24 | 18 | 26 | 18 | 22 | 20 |
| Twrci / Türkiye | 32 | 26 | 34 | 36 | 34 | 29 |
| Y Deyrnas Unedig | 17 | 11 | 13 | 14 | 12 | 13 |
| Unol Daleithiau America | 25 | 13 | 26 | 16 | 20 | 17 |

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2024

# 4. Casgliadau

Yn 2024, cymerodd Cymru ran ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt. Roedd y data'n darparu set eang, gyffredinol o ganfyddiadau ar lefelau ymwybyddiaeth fyd-eang o Gymru a safbwyntiau ar Gymru, yn seiliedig ar gipolwg o safbwyntiau ymatebwyr ar draws y dimensiynau a'r priodoleddau a fesurwyd.

Roedd Cymru yn yr 23ain safle yn gyffredinol allan o 50 o wledydd, yn hanner uchaf y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, gyda sgôr gyffredinol o 62.0 yn y Mynegai. Ar y cyfan, democratiaethau incwm uchel, yng Ngorllewin Ewrop yn bennaf, oedd y gwledydd a gafodd sgôr uwch na Chymru. Mae'r safleoedd wedi aros yn weddol sefydlog, gyda gostyngiad bach o'r 21ain safle yn 2020 i'r 22ain safle yn 2021 a 2022, a'r 23ain safle rhwng 2023 a 2024. Mae sgoriau Cymru hefyd wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y cyfnod hwn

Cafodd Cymru sgôr ffafrioldeb uwch na'r cyfartaledd, gyda sgôr gymedrig o 4.7 ar gyfer ffafrioldeb (ar raddfa o 1.0 i 7.0 pwynt). Roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy cyfarwydd â Chymru, ar gyfartaledd, yn fwy ffafriol tuag at Gymru. Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd uchaf o ran ffafrioldeb gan wledydd Saesneg eu hiaith (yn benodol y DU ac Awstralia). Mae sgôr gymedrig Cymru o ran ffafrioldeb wedi aros yn weddol sefydlog, ar ôl cynyddu ychydig o 4.7 yn 2020 i 4.8 yn 2023, dychwelodd i 4.7 yn 2024. Mae safle Cymru o ran ffafrioldeb dri lle yn is yn 2024, o'i gymharu â 2020 (21ain yn 2020; 23ain yn 2023 a 24ain yn 2024).

Cyfanswm o 56% o'r ymatebwyr ddywedodd eu bod yn weddol gyfarwydd â Chymru o leiaf, sy'n golygu ei bod yn 44ain o blith 50 o genhedloedd y Mynegai. Roedd canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod o leiaf yn weddol gyfarwydd â Chymru yn 2024 bedwar pwynt canran yn is nag yn 2023 (60% yn 2023; 56% yn 2024). Fodd bynnag, roedd safle cyfarwyddineb cyffredinol Cymru bedwar lle yn uwch yn 2024, o'i gymharu â 2023 (48ain yn 2023; 44ain yn 2024).

Cafodd Cymru ei gosod mewn safleoedd cyson ar draws y dimensiynau, yn amrywio o'r 19eg safle i'r 27ain safle allan o 50 o genhedloedd. Cafodd Cymru ei gosod yn hanner uchaf gwledydd y Mynegai ar draws pob dimensiwn, ar wahân i 'Allforion' a 'Diwylliant'.

Safle uchaf Cymru oedd 'Llywodraethu', yn 19eg o 50 o wledydd, ac yna 'Mewnfudo a Buddsoddi' (21ain) a 'Pobl' (23ain). Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle isaf ar gyfer y dimensiwn 'Diwylliant' ar 27ain.